**Gwella bywydau ar gyfer cleifion arennau. Yr Arolwg Blynyddol o Brofiadau a Adroddwyd gan Gleifion**

PREM (Mesur Profiadau a Adroddwyd gan Gleifion)

*Nodwch enw eich uned arennau/is-uned lle'r ydych yn llenwi'r ffurflen hon.*

*Defnyddiwch bin ysgrifennu ddu neu las ar gyfer pob cwestiwn.*

---

| | |
|---|---|
| **Cod adnabod y claf** | ______________________ *(I'w lenwi gan aelod o staff)* |
| **Uned Arennau** | ______________________ |
| **Math o driniaeth** | Dialysis Peritoneol / Hemodialysis / Trawsblaniad / Cyn dialysis |
| | HD Gartref / Mewn canolfan / Is-uned |
| **Oed** | 0-11 / 12-16 / 17-21 / 22-30 / 31-40 / 41-55 / 56-64 / 65-74 / 75-84 / 85+ |
| **Rhyw** | Gwryw / Benyw / Byddai'n well gennyf beidio â dweud |

---

**SUT Y MAE'R TÎM ARENNAU YN EICH TRIN CHI**

**A yw'r tîm arennau yn:**

1. Gwrando'n ofalus arnoch chi?
2. Treulio digon o amser gyda chi?
3. Eich cymryd o ddifrif?
4. Dangos ymagwedd ofalgar tuag atoch chi?

**EICH CYSYLLTIAD Â'R TÎM ARENNAU**

**A yw'r tîm arennau yn:**

5. Treulio amser yn ateb eich cwestiynau am glefyd yr arennau neu eich triniaeth?
6. Eich annog i gysylltu â'r uned o gartref os ydych chi'n bryderus neu'n poeni am glefyd yr arennau neu eich triniaeth?
7. Caniatáu i chi wneud apwyntiadau ychwanegol gyda'ch meddyg os ydych chi'n dymuno gwneud hynny?

**CYMORTH**

**A yw'r tîm arennau yn eich helpu chi i gael y cymorth yr ydych ei eisiau ynglŷn â:**

8. Phryder neu boeni am glefyd yr arennau neu eich triniaeth?
9. Problemau meddygol o ganlyniad i glefyd yr arennau?
10. Problemau ymarferol o ganlyniad i glefyd yr arennau?

**A yw'r tîm arennau yn eich helpu chi i gael cymorth gan:**

11. Gleifion eraill os oes angen hynny arnoch?
12. Rhwydweithiau cymdeithasol (fel teulu a ffrindiau) neu o fewn eich cymuned os oes angen hynny arnoch?

**CYFATHREBU**

**A ydych chi o'r farn bod cyfathrebu da rhwng:**

13. Aelodau'r tîm arennau?
14. Y tîm arennau a'ch meddyg teulu?
15. Y tîm arennau ac arbenigwyr meddygol eraill?
16. Y tîm arennau a gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhai gofal iechyd os oes hangen y rheiny arnoch, fel gwaith cymdeithasol neu dai?

**GWYBODAETH I GLEIFION**

17. A yw'r tîm arennau yn esbonio pethau i chi mewn modd sy'n hawdd ei ddeall?
18. A yw'r tîm arennau yn rhoi cymaint o wybodaeth am glefyd yr arennau neu eich triniaeth i chi ag yr ydych chi ei eisiau?

**A ydych chi'n cael yr wybodaeth hon:**

19. Ar ffurf sy'n addas ar eich cyfer chi?
20. Ar amser sy'n iawn i chi?

**DIET A HYLIFAU**

21. A yw'r tîm arennau yn rhoi'r cyngor yr ydych chi ei eisiau ynglŷn â'ch diet a hylifau?
22. A yw'r cyngor hwnnw yn glir ac yn gyson?

**PROFION**

**A yw'r tîm arennau yn:**

23. Esbonio'r rhesymau am eich profion mewn modd sy'n hawdd i chi ei ddeall?
24. Cael canlyniadau eich profion yn ôl o fewn cyfnod derbyniol o amser?
25. Esbonio canlyniadau eich profion mewn modd sy'n hawdd i chi ei ddeall?

**RHANNU PENDERFYNIADAU YNGLŶN Â'CH GOFAL**

**A yw'r tîm arennau yn:**

26. Eich galluogi chi i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eich gofal arennau cymaint ag yr ydych yn dymuno?
27. Rhoi digon o wybodaeth i chi er mwyn i chi ddeall yr hyn sydd ynghlwm â'r penderfyniadau hyn?
28. Eich cefnogi chi â phennu ac adolygu'r amcanion sy'n bwysig i chi?
29. Eich annog chi i gymryd rhan fwy ymarferol wrth reoli eich gofal arennau eich hun?

**PREIFATRWYDD AC URDDAS**

30. A ydych chi'n cael digon o breifatrwydd pan fyddwch yn trafod eich cyflwr neu eich triniaeth?
31. A yw eich preifatrwydd a'ch urddas yn cael eu parchu yn ystod ymweliadau ac archwiliadau clinigol?

**TREFNU A CHYNLLUNIO**

32. A yw'r trefniadau ar gyfer eich profion gwaed yn gyfleus i chi?
33. A yw amserau apwyntiadau yn cael eu trafod yn ddigonol gyda chi?
34. A ydych chi o'r farn bod amser yn cael ei wastraffu yn ystod apwyntiadau yn ymwneud â'ch arennau? (e.e. aros i gael eich gweld, ailadrodd profion)

**CLUDIANT**

**Os yw'r uned arennau yn trefnu eich cludiant:**

35. A yw'r cerbyd a ddarperir yn addas ar eich cyfer chi?
36. A yw'r amser y mae'n ei gymryd i deithio rhwng eich cartref a'r uned arennau yn dderbyniol i chi?
37. Pan fydd eich ymweliad â'r uned arennau wedi dod i ben a'ch bod yn barod i adael, a ydych chi'n gorfod aros mwy na 30 munud cyn gadael?

**YR AMGYLCHEDD**

**Pan fyddwch chi'n mynd i'r uned arennau, sut byddech chi'n graddoli:**

38. Hygyrchedd (e.e., lifftiau, rampiau, drysau awtomatig)?
39. Cyfforddusrwydd?
40. Glendid?
41. Cyfleusterau parcio?
42. Y man aros?

**EICH PROFIAD CYFFREDINOL**

43. **Sut byddech chi'n graddoli eich profiad cyffredinol o'r gwasanaeth a ddarperir gan eich uned arennau ar raddfa rhwng 1 (gwael iawn) a 10 (rhagorol)?**

---

**Diolch am lenwi'r holiadur hwn**

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan Gweddnewid Cyfranogiad yng Nghlefyd Cronig yr Arennau https://www.thinkkidneys.nhs.uk/ckd/